



Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Asesiad

gan

gyflogwr:

gwybodaeth

i weithwyr

Sut i gofrestru drwy asesiad gan gyflogwr.

Cyhoeddwyd gyntaf: 30 July 2026

Diweddariad olaf: 9 October 2026

Lawrlwythwyd y ddogfen hon o
gofalcymdeithasol.cymru ac efallai
nid hwn yw'r fersiwn diweddaraf.

Ewch i

<https://gofalcymdeithasol.cymru/cofrestru/asesiad-gan-gyflogwr/asesiad-gan-gyflogwr-gwybodaeth-i-weithwyr> am y fersiwn diweddaraf.

Sut i gofrestru drwy asesiad gan gyflogwr.

Mae asesiad gan gyflogwr yn ffordd i chi gofrestru gyda ni os nad oes gennych chi'r cymwysterau sydd eu hangen ar gyfer eich rôl.

Gall eich cyflogwr asesu eich dealltwriaeth yn erbyn rhestr o feysydd, ac os ydyn nhw'n fodlon gallwch chi wneud y gwaith, gallan nhw gadarnhau eich cais i gofrestru.

Pan fyddwch chi'n gwneud cais i gofrestru, bydd angen i chi ddewis y person a fydd yn cwblhau eich asesiad cyflogwr o restr o unigolion cymeradwy posibl ar gyfer eich cyflogwr.

Byddwn ni'n anfon e-bost atyn nhw i roi gwybod fod eich asesiad gan gyflogwr yn aros i gael ei gwblhau yn eu [cyfrif GCCarlein](#).

Eich cyfrifoldeb chi yw sicrhau eu bod nhw'n cwblhau eich asesiad, fel gallwn ni fwrw ymlaen â'ch cais.

Os nad oes unigolyn cymeradwy gan eich cyflogwr i gwblhau eich asesiad gan gyflogwr, neu os nad ydych chi'n credu bod unrhyw un o'r unigolion ar y rhestr yn addas, dylech chi drafod gyda'ch rheolwr.

Ar ôl i chi gofrestru, bydd angen i chi gwblhau un o'r opsiynau cymhwyster a restrir yn y [fframwaith cymwysterau](#). Mae gennych chi hyd at chwe blynedd i gael eich cymhwyster.